# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion (EOC(3)-08-08)

**Dyddiad: dydd Mercher 4 Mehefin 2008**
**Amser: 9.00 – 11.35**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon
Chris Franks, Canol De Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru

Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Nick Ramsay, Sir Fynwy
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn Bresennol

Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau

Dr Dennis Gunning, Pennaeth yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Mair Watkins, Pennaeth y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol

Bob Waller, Pennaeth y Tîm Polisi Sgiliau, Cyflogadwyedd a Throsglwyddo Gwybodaeth.
Ann Evans, Pennaeth yr Is-adran Cymwysterau a Dysgu
Fran Targett, Cyngor ar Bopeth Cymru
Mark Freeman, Gyrfa Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Angela Burns a Huw Lewis. Roedd Nick Ramsay yn dirprwyo ar ran Angela Burns.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd bod cynnig i'w gyflwyno yn y cyfarfod llawn yn hwyrach heddiw i ethol Nick Ramsay i'r Pwyllgor yn lle Angela Burns. Ychwanegodd ei bod wedi ysgrifennu at Angela Burns i ddiolch iddi am ei chyfraniad.

### Eitem 2: Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anab

Papur: EOC(3)-08-08(p.1)

2.1 Rhoddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r wybodaeth ddiweddaraf am ei phapur ac ymatebodd i gwestiynau'r Aelodau.

### Pwyntiau Gweithredu

Y Pwyllgor i ystyried a ddylid edrych ar ganlyniadau'r cynllun peilot (sydd i ddod i ben ym mis Mawrth 2009) i fenter teithio rhatach trafnidiaeth gymunedol.

Y Pwyllgor i ystyried a ddylid ymchwilio i'r adroddiad ar weithredu trefniadau'r cynllun taliadau uniongyrchol.

Cytunodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i anfon Adroddiad y Gweithgor Ymgysylltu â Chyflogwyr (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008) at y Cadeirydd.

Cytunodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i anfon manylion am yr ystadegau Yn Awyddus i Weithio at y Cadeirydd.

Y Cadeirydd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am weithredu'r argymhellion sydd yn Adroddiad y Pwyllgor –

Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl – ym mis Ionawr 2009.

**Eitem 3: Ymchwiliad i Faterion sy'n Effeithio ar Weithwyr Mudol yng Nghymru**
**Papur: EOC(3)-08-08(p.2)**

3.1 Datganodd Chris Franks bod ei wraig yn ymwneud â hyfforddiant ESOL.

3.2 Rhoddodd y Dirprwy Weinidog dros sgiliau'r wybodaeth ddiweddaraf am ei bapur ac ymatebodd i gwestiynau'r Aelodau.

## Pwyntiau Gweithredu

Cytunodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau i ysgrifennu at y Cadeirydd ynghylch costau tanysgrifio i gronfa ddata UK NARIC.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau i ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ganfod a ellir dadelfennu ffigurau UK NARIC er mwyn dangos defnydd o Gymru.

## Eitem 4: Ymchwiliad i Faterion sy'n Effeithio ar Weithwyr Mudol yng Nghymru

Papur: EOC(3)-08-08(p.3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Fran Targett o Gyngor ar Bopeth Cymru a Mark Freeman o Gyrfa Cymru.  Ymatebodd y panel i gwestiynau'r Aelodau.

## Pwyntiau Gweithredu

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ganfod pa gysylltiadau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar y mater o Gomisiwn Cyflogaeth Deg.

Cytunodd Fran Targett i ddarparu tystiolaeth ystadegol o'r bobl agored i niwed sy'n cael eu cyflogi mewn meysydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio (lletygarwch a glanhau).

Cytunodd Fran Targett i anfon papur briffio at y Cadeirydd am y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'i oblygiadau.

Cytunodd Mark Freeman i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda rhagor o fanylion am y Cynllun Hyfforddiant Gwybodaeth Ranbarthol Brydeinig sy'n cael ei redeg gan Goleg Llandrillo.

Cytunodd Mark Freeman i ysgrifennu at y Cadeirydd i ddweud a fydd Gyrfa Cymru'n gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU am sefydlu Comisiwn Cyflogaeth Deg.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Mehefin 2008